# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Hydref 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 165(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Sam Rowlands (Gogledd Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gydag arweinydd Cyngor Sir Ddinbych yn dilyn ei rybudd fod y cyngor yn wynebu methdaliad oni bai bod gwasanaethau a swyddi yn cael eu torri?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol

(60 munud)

**NDM8379** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Gorffennaf 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Medi 2023.

## 6 Dadl ar ddeiseb P-06-1345 - Dylid gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai

(30 munud)

**NDM8380** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1345 Dylid gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai' a gasglodd 10,580 o lofnodion.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Digartrefedd

(60 munud)

**NDM8384** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru.

2. Yn credu na fydd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

3. Yn nodi gyda phryder fod nifer yr unigolion sy'n cysgu ar y stryd wedi cyrraedd ei lefel uchaf ers 2020.

4. Yn cydnabod nad yw saith awdurdod lleol yn cofnodi gwybodaeth am farwolaethau digartrefedd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu rhwydwaith ar gyfer Cymru sy'n cyfateb i'r Combined Homelessness and Information Network, i sicrhau bod digon o ddata ar gael i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru a'i effaith.

Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwellliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu'r diwygio dewr, uchelgeisiol a radical ar gyfer y dyfodol a nodir yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd a ddatblygwyd fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru.

2. Yn nodi cyfraniad hanfodol y rhai sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd wrth baratoi'r Papur Gwyn a barn Prif Weithredwr Crisis bod yr uchelgais a welir ynddo yn arwain y byd.

3. Yn annog ymatebion i'r ymgynghoriad a fydd yn helpu i lunio'r dull o fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru yn y dyfodol.

Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8383** Rhianon Passmore (Islwyn)

Chwalu'r nenfwd dosbarth - adeiladu Cymru egalitaraidd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Hydref 2023